Drwy e-bost

Jeremy Miles AS
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg

22 Medi 2021

Annwyl Weinidog

Fel y gwyddoch, wrth ymateb i heriau pandemig COVID-19, rydym hefyd wedi parhau â'n gwaith i ail-lunio cymwysterau ar gyfer dysgwyr 14 i 16 oed i helpu i ddod â'r Cwricwlwm newydd i Gymru yn fyw.

Yn y llythyr hwn rydym yn crynhoi ein gwaith hyd yma a sut, wrth symud ymlaen, y byddwn yn defnyddio egwyddorion datblygu ar y cyd i roi llais cryf a chanolog i randdeiliaid wrth gyflawni ein dau nod o ail-ddychmygu cymwysterau TGAU ac ail-lunio'r arlwy ehangach o gymwysterau ar gyfer pobl ifanc rhwng 14 ac 16 oed.

Yna, rydym yn amlinellu rhai tybiaethau a blaenoriaethau allweddol ar gyfer diwygio cymwysterau fel eu bod yn cefnogi Fframwaith Cwricwlwm i Gymru ac yn cyd-fynd ag ef ac yn diwallu anghenion dysgwyr yn y dyfodol.

O ystyried eich cyfrifoldeb ar y cyd dros y Gymraeg ac Addysg, mae'r llythyr hwn hefyd yn cyffwrdd â'n hymrwymiad i sicrhau bod diwygiadau i gymwysterau yn cyfrannu at uchelgeisiau polisi Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru.

Yn olaf, trafodwn rai o'r risgiau a'r dibyniaethau allweddol i sicrhau diwygio cymwysterau a fydd yn helpu i sicrhau bod y cwricwlwm newydd yn llwyddiant, yn enwedig y llinell amser ar gyfer cyflwyno'r cwricwlwm newydd a datblygu agwedd newydd tuag at werthuso, gwella ac atebolrwydd ysgolion.

1. Cefndir

Ers dechrau 2020, rydym wedi cynnal dau ymgynghoriad cyhoeddus i helpu i lywio ein hymagwedd at y gwaith hwn. Sefydlodd yr ymgynghoriad cyntaf egwyddorion arweiniol a sylfeini ar gyfer ein gwaith, a gofynnodd yr ail am farn ar yr ystod o bynciau ar gyfer cymwysterau TGAU.

Egwyddorion a sylfeini arweiniol

Yn ein hymgynghoriad cyntaf, esboniwyd pam ddylai dysgwyr rhwng 14 ac 16 oed barhau i astudio ar gyfer cymwysterau a'u sefyll. Mae troi'n 16 oed yn garreg filltir bwysig ym mywyd person ifanc, pan fyddant yn cwblhau eu haddysg orfodol cyn mynd ymlaen i astudiaeth academaidd neu alwedigaethol mwy penodol, hyfforddiant neu waith. Mae cymwysterau ar y pwynt hwn yn adlewyrchu addysg ar ei bwynt ehangaf i'r dysgwr ac yn darparu gwybodaeth sy'n helpu pobl ifanc i benderfynu pa lwybr i'w ddilyn nesaf. Mae profiad y ddwy flynedd ddiwethaf wedi dangos ymhellach y rôl bwysig y mae cymwysterau'n ei chwarae o ran helpu pobl ifanc i symud ymlaen ar eu taith ddysgu.

Roedd cefnogaeth gref i'r egwyddorion arweiniol a gynigiwyd gennym ar gyfer yr ystod o gymwysterau 14 i 16 yn y dyfodol y gellir eu hariannu'n gyhoeddus. Rydym wedi cytuno y dylai'r cymwysterau hyn:

1. Ymwneud â nodau a dibenion Fframwaith y Cwricwlwm newydd i Gymru
2. Bod ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.
3. Cyfrannu at arlwy gydlynol a chynhwysol.

Cytunwyd hefyd y dylid parhau i alw'r prif gymwysterau a astudir mewn ysgolion, wedi'u halinio â Chwricwlwm Cymru, yn gymwysterau TGAU, ond y bydd angen i'w cynnwys a'u hasesiadau newid. Rydym yn disgrifio isod sut rydym yn bwriadu cydweithio â rhanddeiliaid i gyd-adeiladu cyfres newydd o gymwysterau TGAU.

2. Llunio'r arlwy cymwysterau 14 i 16 ehangach

Mae ein gwaith ar ddiwygio cymwysterau i gefnogi'r Cwricwlwm i Gymru yn mynd ymhellach nag ystyried beth nesaf ar gyfer cymwysterau TGAU. Mewn cydweithrediad â rhanddeiliaid, rydym hefyd am lunio'r holl gymwysterau 14 i 16 a gynigir fel eu bod yn diwallu anghenion pob dysgwr ac yn cynnig rhywbeth i bawb.

Rydym am roi dewis cydlynol a chynhwysol o gymwysterau dwyieithog i ganolfannau, sy'n cefnogi eu cwricwlwm ysgol ac sy'n diwallu anghenion eu dysgwyr. Dros yr haf rydym wedi adolygu'r ystod o gymwysterau sydd ar gael yn rhyngwladol. Byddwn yn awr yn ymgysylltu'n helaeth â rhanddeiliaid i ystyried pa gymwysterau eraill a ddylai fod ar gael ochr yn ochr â chymwysterau TGAU.

Bydd ein gwaith ar yr arlwy ehangach hwn yn ystyried yr ystod o gymwysterau sydd ar gael i ddysgwyr 14 i 16 oed o lefel mynediad i fyny ac amrywiaeth eang o feysydd pwnc, gan gynnwys y rhai sy'n gysylltiedig â'r byd gwaith. Byddwn yn cael ein harwain gan anghenion dysgwyr a barn athrawon, rhieni a rhanddeiliaid eraill. Rydym yn disgwyl y bydd yr ystod o gymwysterau yn y dyfodol yn cynnwys cymysgedd o gymwysterau presennol a newydd. Bydd rhai yn gymwysterau a wnaed ar gyfer Cymru, a bydd rhai yn gymwysterau sydd ar gael ledled y DU.

Byddwn yn ymgynghori ar nodweddion diffiniol yr arlwy yn ystod hydref 2022. Ein nod yw sefydlu ystod gwbl gydlynol a chynhwysol o gymwysterau dwyieithog erbyn mis Medi 2027.

Yn dibynnu ar faint o newid sydd ei angen i lunio'r arlwy, mae posibilrwydd y bydd angen adnoddau ychwanegol arnom i helpu i ddiwygio cymwysterau presennol neu sicrhau rhai newydd. Bydd yn parhau i weithio'n agos gyda'ch swyddogion ar hyn i gyfrannu at gynllunio cyllidebau yn y dyfodol.

3. Ail-ddychmygu cymwysterau TGAU

Yn gynharach eleni, gwnaethom ymgynghori ar yr ystod arfaethedig o bynciau TGAU a fyddai'n cefnogi'r Cwricwlwm i Gymru orau. Rydym wedi ystyried yr holl ymatebion yn ofalus a chyn bo hir byddwn yn cadarnhau'r ystod o bynciau y bydd cymwysterau TGAU newydd, a wnaed ar gyfer Cymru, yn cael eu datblygu ynddynt.

Mae hyn yn nodi dechrau cyfnod cyffrous a chreadigol o'n gwaith Cymwys ar gyfer y Dyfodol. Byddwn yn gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid i wneud dau beth. Yn gyntaf, ailystyried y berthynas rhwng y cwricwlwm, addysgeg a chymwysterau. Yn ail, edrych ar y ffyrdd ymarferol y dylai cynnwys ac asesiadau cymwysterau gyd-fynd ag ethos, dibenion a chynnwys Fframwaith Cwricwlwm i Gymru, galluogi addysgu effeithiol, a chefnogi profiadau cadarnhaol a lles dysgwyr.

Mae sawl ffordd y gellir dylunio cymwysterau i asesu a dangos cyrhaeddiad a phrofiadau dysgwyr. Ni ddylid ystyried bod cymwysterau'n gyfystyr ag arholiadau ysgrifenedig traddodiadol. Byddwn yn archwilio sut y gellir dylunio cymwysterau i annog dysgwyr i gael

profiadau gwerth chweil, heb gymryd mai'r unig ddysgu neu brofiadau a enillir gan ddysgwyr yw'r rhai a bennir mewn cymwysterau.

Rydym wedi ymrwymo i archwilio dulliau arloesol ac ail-ddychmygu cynnwys ac asesiadau cymwysterau'r dyfodol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Sut y gellir dylunio cymwysterau i fod mor ddeniadol â phosibl i ddysgwyr a chefnogi eu hiechyd meddwl a'u lles.
- Cynyddu hyblygrwydd - i adlewyrchu cwricwlwm ysgolion a chynnig profiad addysgu a dysgu cadarnhaol i'w dysgwyr.
- Archwilio technoleg ddigidol i wella profiadau asesu i ddysgwyr a meithrin mwy o wytnwch yn y modd y darperir cymwysterau.

Mae'r uchelgeisiau hyn yn adlewyrchu'r blaenoriaethau dylunio cymwysterau a drafodir yn ddiweddarach yn y llythyr hwn.

Mae'r enw TGAU yn cynnig manteision sylweddol i ddysgwyr; mae'n gyfarwydd, yn ddibynadwy ac yn helpu i sicrhau bod cyflawniadau pobl ifanc yn cael eu cydnabod a'u gwerthfawrogi. Fel y trafodwyd eisoes, ein blaenoriaeth uniongyrchol yw gweithio gyda rhanddeiliaid i ailddychmygu cynnwys ac asesiadau'r genhedlaeth nesaf o gymwysterau a wnaed i Gymru. Ar ôl i ni ddatblygu'r nodweddion lefel uchel ar gyfer y cymwysterau newydd hyn, byddwn yn ystyried a ddylid ailedrych ar y cwestiwn o gadw'r enw TGAU.

Nid ydym yn credu ar hyn o bryd y bydd angen adnoddau ychwanegol ar wahân i'r rhai y cytunwyd arnynt eisoes i gefnogi ein gwaith o ddiwygio cymwysterau TGAU; mae'r costau a ragwelir eisoes yn cael eu hadlewyrchu yn asesiad effaith Llywodraeth Cymru ar gyfer y cwricwlwm newydd.

Fodd bynnag, efallai bod ein ffocws o'r newydd ar ymgysylltu â rhanddeiliaid yn golygu ein bod yn ysgwyddo rhai costau yn gynharach na'r disgwyl yn wreiddiol, felly efallai y bydd angen ailbroffilio peth o'r cyllid sy'n ofynnol ym mhob blwyddyn. Byddwn yn parhau i weithio gyda'ch swyddogion i gefnogi'ch gwaith o gynllunio cyllideb ar gyfer y blynyddoedd i ddod.

4. Dull datblygu ar y cyd

Mae'n hanfodol bod pawb sy'n ymwneud ag addysg yn cydweithio i gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru. Rydym am roi llais cryf i ddysgwyr, athrawon, arbenigwyr asesu, rhieni a gofalwyr, cyflogwyr, colegau a phrifysgolion wrth lunio cynnwys ac asesiadau cymwysterau newydd.

Byddwn yn cynnwys rhanddeiliaid yn uniongyrchol yn y gwaith o archwilio a datblygu cynigion ar gyfer pob pwnc unigol. Bydd ein dull gweithredu yn gydweithredol ac yn agored. Byddwn yn dysgu gwersi o sut y datblygwyd y Cwricwlwm i Gymru, ac o'n profiad diweddar o weithio'n agos gyda rhanddeiliaid i sicrhau bod cymwysterau'n cael eu darparu'n llwyddiannus yn haf 2021.

Byddwn yn defnyddio model tair haen ar gyfer cynnwys rhanddeiliaid, sy'n cynnwys:

i. Gweithgorau ar lefel pwnc
ii. Grwpiau rhwydwaith MDPh
iii. Grŵp cyfeirio rhanddeiliaid

Mae'r atodiad amgaeedig yn disgrifio'n fanylach sut y byddwn yn defnyddio'r grwpiau hyn i gyd-adeiladu cymwysterau TGAU newydd ac i gyd-ddatblygu a phrofi syniadau ar gyfer y cymwysterau 14 i 16 ehangach a gynigir.

Yn ogystal â'r grwpiau hyn, rydym hefyd yn gweithio gyda'ch swyddogion i gytuno sut y gall y Rhwydwaith Cenedlaethol ar gyfer gweithredu'r cwricwlwm helpu i lywio'r meddylfryd ar gymwysterau newydd.

5. Alinio cymwysterau i'r Cwricwlwm i Gymru

Er mwyn cefnogi'r gwaith o ail-ddychmygu cymwysterau'r dyfodol, rydym wedi trafod a chytuno ar rai tybiaethau allweddol gyda'ch swyddogion ynghylch sut y bydd cymwysterau yn y dyfodol yn ymwneud â Fframwaith Cwricwlwm i Gymru ar lefel genedlaethol ac ar lefel ysgol.

Mae'n bwysig bod pawb sy'n ymwneud â gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru yn cydnabod ei fod yn llawer ehangach na dim ond y cymwysterau a astudir gan ddysgwyr. Nid oes disgwyl i'r holl weithgareddau a phrofiadau dysgu a gyflawnir gan ddysgwyr arwain at gymhwyster. Gall cymwysterau sydd wedi'u cynllunio'n dda helpu i annog addysgu a dysgu o ansawdd uchel mewn ysgolion, ond nid hwy yw'r unig ffordd o sicrhau hyn o bell ffordd. Gellir ennill a chydnabod sgiliau a gwybodaeth werthfawr drwy brofiadau a gweithgareddau eraill.

Mater i ganolfannau (ysgolion, colegau a lleoliadau eraill) fydd penderfynu pa gymwysterau i'w darparu i'w dysgwyr. Ein rôl yw llunio'r ystod o gymwysterau a ariennir yn gyhoeddus fel y gall canolfannau ddewis y rhai mwyaf priodol ar gyfer eu dysgwyr.

Dylai'r cymysgedd o gymwysterau a gynigir gan ganolfannau ac a astudir gan ddysgwyr adlewyrchu dibenion, nodau a disgwyliadau Fframwaith Cwricwlwm i Gymru. Hynny yw, dylai fod gan ddysgwyr ddewis o gymwysterau sy'n eu helpu i wireddu'r pedwar diben, adlewyrchu eu dysgu a'u profiadau ar draws cwricwlwm eang a chytbwys, a chefnogi eu dilyniant yn y dyfodol.

Ein dealltwriaeth ni yw nad yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu pennu isafswm neu uchafswm o gymwysterau y bydd disgwyl i bob dysgwr eu hastudio, na phennu cymwysterau penodol y mae'n rhaid i ganolfannau eu cynnig i'w dysgwyr. Mae ein hymchwil yn dangos bod dysgwyr yn ymgymryd â thua 13 TGAU neu gymhwyster cyfatebol ar gyfartaledd. Mae hyn yn ymddangos fel nifer uchel o ystyried disgwyliadau ehangach y Cwricwlwm i Gymru, felly efallai y byddem yn disgwyl gweld nifer cyfartalog y cymwysterau a astudir gan ddysgwyr yn gostwng dros amser wrth i ysgolion ganolbwyntio ar gynnig profiadau dysgu ehangach a mwy cytbwys i'w dysgwyr.

Gellir dylunio cymwysterau i helpu dysgwyr i wireddu pedwar diben y Cwricwlwm i Gymru. Dylai dyluniad cymwysterau unigol hefyd egluro sut y maent yn ymwneud ag agweddau penodol ar Fframwaith Cwricwlwm i Gymru, megis y datganiadau o'r hyn sy'n bwysig, disgrifiadau o gamau dysgu a dilyniant. Wrth ailddychmygu cymwysterau, byddwn hefyd yn ystyried ystod o flaenoriaethau dylunio eraill, fel y trafodir isod.

6. Blaenoriaethau ar gyfer dylunio cymwysterau

Bydd y blaenoriaethau canlynol yn llywio ein gwaith gyda rhanddeiliaid i ailddychmygu cymwysterau TGAU newydd a chymwysterau eraill a wnaed i Gymru.

Dewis a hyblygrwydd

Cyn belled ag y bo modd, rydym am i gymwysterau gynnig cyfle i ysgolion a dysgwyr gyflwyno a phrofi eu cwricwlwm ysgol yn unol â Fframwaith Cwricwlwm i Gymru. Byddwn yn archwilio gyda rhanddeiliaid sut y gellir asesu gwybodaeth, sgiliau a phrofiadau mewn ffyrdd sy'n cynnig mwy o hyblygrwydd i ddysgwyr a chanolfannau ddewis rhywfaint o'r cynnwys a'r cyd-destun y maent am ganolbwyntio arnynt. Bydd natur a graddau'r hyblygrwydd sydd ei angen yn amrywio ar draws pynciau, mae hanes yn debygol o gwmpasu cynnwys mwy dewisol na mathemateg er enghraifft. Mae llawer o ffyrdd y gellir sicrhau hyblygrwydd, er enghraifft drwy gynnwys mwy o asesiadau a arweinir gan athrawon, neu fwy o asesiadau sy'n seiliedig ar brosiectau lle gall dysgwyr benderfynu ar y maes y maent am ganolbwyntio arno. Ar gyfer pob cymhwyster dylai fod yn glir sut a pham y mae'r cydbwysedd wedi'i sicrhau rhwng yr hyn sy'n benodedig a'r hyn sy'n hyblyg.

Profiadau, ymgysylltiad a dilyniant dysgwyr

Byddwn yn edrych ar sut y gall cymwysterau helpu i ehangu'r ffyrdd y caiff y dysgu a'r profiadau a geir gan ddysgwyr eu cydnabod mewn ffyrdd a all gefnogi eu hymgysylltiad a'u dilyniant. Er enghraifft, gallai cymwysterau ei gwneud yn ofynnol i ddysgwyr gynnal tasgau neu weithgareddau penodol y mae'n rhaid iddynt eu cwblhau ond na fyddant efallai'n cyfrannu'n uniongyrchol at eu gradd derfynol. Gellid darparu gwybodaeth ychwanegol ochr yn ochr â gradd gyffredinol i ddangos cyrhaeddiad dysgwr mewn perthynas â sgiliau penodol neu i adlewyrchu pwnc neu thema benodol y maent wedi canolbwyntio arni.

Technoleg ddigidol

Byddwn yn edrych ar sut y gellir dylunio cymwysterau i gynnwys defnydd mwy effeithiol ac eang o dechnoleg ddigidol wrth asesu. Mae hyn yn ymwneud â mwy na dim ond newid o arholiadau ar ddiwedd cwrs of fod ar bapur i fod ar y sgrin. Mae'n ymwneud â sut y gall technoleg ddigidol helpu i ehangu'r ystod o dystiolaeth a all gyfrannu at radd dysgwr, gall helpu i wneud asesiadau a arweinir gan athrawon yn fwy hylaw, a gwneud y profiad asesu yn fwy perthnasol ac ennyn diddordeb. Rydym yn gwybod y gall technoleg ddigidol helpu i ysgogi ac ennyn diddordeb dysgwyr, gan roi profiad mwy cadarnhaol iddynt a'u helpu i ddangos eu gwir botensial.

Gallai technoleg newydd hefyd helpu i wneud asesu'n fwy hylaw ac yn llai o straen drwy helpu i gefnogi asesiadau mwy modiwlaidd ac ar-alw. Gan ddysgu o heriau'r pandemig, mae gan fwy o ddefnydd o dechnoleg ddigidol hefyd y potensial i wella effeithlonrwydd a gwydnwch wrth ddarparu asesiadau. Bydd sicrhau bod cymwysterau'n hylaw ac yn hygyrch i bob canolfan a dysgwr yn chwarae rhan bwysig wrth ystyried ffyrdd newydd o wneud pethau.

Iechyd meddwl a lles dysgwyr

Cymwysterau yw un o'r ffactorau niferus a all effeithio ar iechyd meddwl a lles dysgwyr. Mae unrhyw fath o asesiad yn achosi rhywfaint o her a phryder. Gall wynebu'r her honno'n llwyddiannus helpu i feithrin hyder a gwydnwch dysgwr. Ond mae hefyd yn bwysig ystyried yn ofalus sut y gellir dylunio cymwysterau i'w gwneud yn fwy tebygol y bydd dysgwyr yn cael profiad asesu cadarnhaol. Efallai y bydd dulliau asesu newydd yn gallu helpu i leihau'r pryder i ddysgwyr. Dylai asesiadau wedi'u dylunio'n dda helpu dysgwyr i ymgysylltu â'u dysgu ac i ddatblygu eu hyder a'u hannibyniaeth. Gellir gwneud hyn er enghraifft, drwy sicrhau bod y dull asesu yn briodol i'r dysgu sy'n cael ei ddangos (dilysrwydd), drwy gynnwys cymysgedd o

wahanol ddulliau asesu o fewn cymhwyster i ddarparu ar gyfer gwahanol ddewisiadau, a thrwy ystyried y cyd-destun ar gyfer cynnal asesiadau.

Rheoli newid

Wrth i ni weithio gyda rhanddeiliaid i ail-ddychmygu cymwysterau'r dyfodol, byddwn yn gweithio gydag eraill i gynllunio'n gynnar ac yn effeithiol i sicrhau bod newid yn cael ei weithredu'n llwyddiannus. Bydd hyn yn cynnwys cytuno'n systematig ar y gofynion ar gyfer adnoddau addysgu a dysgu, datblygiad proffesiynol a hyfforddiant i athrawon newydd.

7. Cefnogi dysgu'r iaith Gymraeg

Cadarnhaodd ein hymgynghoriad diweddar fod llawer o safbwyntiau gwahanol ar y rhan y dylai cymwysterau ei chwarae wrth helpu i wireddu polisi Llywodraeth Cymru o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Rydym yn cefnogi'r nod hwnnw ac wedi ymrwymo i sicrhau bod cymwysterau'n gwneud cyfraniad gweithredol at ei gyflawni.

O ystyried yr amrywiaeth barn yn y maes hwn, byddem yn croesawu cyfle i drafod sut yr hoffech i gymwysterau gyfrannu at gyflawni eich uchelgeisiau polisi.

Byddwn yn parhau i weithio gyda'ch swyddogion a'ch rhanddeiliaid i gytuno sut y gall unrhyw gymwysterau newydd wneud y cyfraniad mwyaf effeithiol posibl at ddull cydlynol a chydgysylltiedig ar draws y system. Un a fydd yn helpu i greu cenhedlaeth o ddysgwyr sy'n frwdfrydig ac yn hyderus ynghylch defnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau bob dydd. Byddwn yn ysgrifennu atoch eto cyn bo hir i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am ein syniadau ar y maes polisi pwysig hwn.

8. Gwerthuso, gwella ac atebolrwydd ysgolion yn y dyfodol

Rydym am fanteisio ar y cyfle hwn i bwysleisio'r berthynas rhwng sut y caiff cymwysterau eu dylunio a sut y defnyddir eu canlyniadau. Rydym yn llwyr gefnogi nod polisi Llywodraeth Cymru o leihau'r ddibyniaeth anghymesur bresennol ar ddeilliannau cymwysterau mewn trefniadau atebolrwydd ysgolion ac ehangu'r ystod o ddata, tystiolaeth a mesurau i gefnogi gwerthuso a gwella ysgolion.

Mae gan y defnydd cyfredol o gymwysterau mewn atebolrwydd ysgol ddwy effaith fawr. Yn gyntaf, mae'n cyfyngu ar sut y mae cymwysterau'n cael eu dylunio drwy fynnu dull dibynadwy ac anhyblyg iawn o ymdrin â chynnwys ac asesu. Yn ail, mae'n gyrru penderfyniad yr ysgol ynghylch pa gymwysterau y dylai dysgwyr eu hastudio a faint o amser y maent yn ei dreulio'n paratoi ar eu cyfer. Y lleiaf o bwyslais sydd ar ganlyniadau

cymwysterau, y mwyaf o gyfle sydd i arloesi yn y modd y mae cynnwys ac asesu yn cael eu cydnabod. Ond mae'r gwrthwyneb hefyd yn wir. Os bydd trefniadau yn y dyfodol yn parhau i ddibynnu'n drwm ar ganlyniadau cymwysterau, bydd hyn yn cyfyngu'n sylweddol ar y posibilrwydd o ailddychmygu cymwysterau ac asesiadau.

Byddwn yn parhau i weithio gyda'ch swyddogion i gefnogi'r gwaith o ddatblygu'r dull newydd ac yn helpu i liniaru unrhyw risgiau i ddiwygiadau cymwysterau.

9. Llinell amser ar gyfer diwygio

Mae'r llinell amser isod yn dangos y gweithgareddau allweddol sydd eu hangen i greu set newydd o gymwysterau TGAU a chymwysterau ategol. Mae hyn yn cynnwys cyfnod o ymgysylltu ac ymgynghori â rhanddeiliaid i gytuno ar nodweddion dylunio allweddol, cyfnod o ddatblygu ac ymgysylltu pellach â rhanddeiliaid ar y manylebau a'r trefniadau asesu manwl, ac amser i baratoi ar gyfer addysgu'r cymwysterau newydd.



Ein nod yw sicrhau bod cymwysterau newydd ar gael mewn pryd i'w haddysgu am y tro cyntaf ym mis Medi 2025. Dyna pryd y bydd y garfan genedlaethol gyntaf o ddysgwyr sydd wedi profi'r cwricwlwm newydd drwy eu haddysg uwchradd yn dechrau ym Mlwyddyn 10. Mae llawer i'w wneud, a gwyddom fod sicrhau digon o amser ar gyfer paratoi a gweithredu yn hanfodol i gyflawni'n llwyddiannus. Byddwn yn parhau i adolygu'r amserlen hon wrth i ni barhau i archwilio gyda rhanddeiliaid natur a maint y diwygiadau sydd eu hangen.

10.Y daith i gyflwyno'r cwricwlwm

Mae'r flwyddyn academaidd sydd i ddod yn nodi cyfnod hollbwysig a chyffrous yn y daith o ddiwygio'r cwricwlwm. Edrychwn ymlaen at weithio gyda'ch swyddogion a llawer o rai eraill i fanteisio ar y cyfle hwn i gyd-greu set arloesol a blaengar o gymwysterau newydd. Cymwysterau a fydd yn dod â'r Cwricwlwm newydd i Gymru yn fyw ac yn helpu i roi'r dechrau gorau posibl mewn bywyd i ddysgwyr y dyfodol.

Yn gywir

David B Jones OBE DL
Cadeirydd

Philip Blaker
Prif Weithredwr

Amg: Model ar gyfer datblygu cymwysterau 14 i 16 newydd ar y cyd

Atodiad 1: Model ar gyfer datblygu cymwysterau 14 i 16 newydd ar y cyd

Byddwn yn defnyddio model tair haen ar gyfer cynnwys rhanddeiliaid. Bydd y grwpiau a ddisgrifir isod yn ein helpu i ddatblygu'r gwaith o gynllunio cymwysterau TGAU newydd ar y cyd, byddant hefyd yn helpu i lunio'r meddylfryd ar y cymwysterau 14 i 16 ehangach a gynigir.



Bydd gweithgorau ar lefel pwnc yn canolbwyntio ar gasglu barn rhanddeiliaid a datblygu syniadau a chynigion ar gyfer pob cymhwyster newydd sy'n cael ei gynllunio. Bydd pob grŵp yn cynnwys cymysgedd o ymarferwyr, arbenigwyr pwnc ac arbenigwyr asesu.

Yn cefnogi'r grwpiau lefel pwnc bydd chwe grŵp rhwydwaith rhanddeiliaid, un ar gyfer pob Maes Dysgu a Phrofiad (Maes) cwricwlwm. Bydd y rhain yn rhoi awgrymiadau ac adborth rheolaidd i'r grwpiau pwnc i helpu i nodi, trafod a mireinio syniadau. Bydd y grwpiau rhwydwaith yn cynnwys athrawon, darlithwyr, arholwyr, cyrff dysgedig a phroffesiynol, ac eraill sydd â diddordeb ym mhob Maes cwricwlwm.

Bydd grŵp cyfeirio cyffredinol i randdeiliaid yn cynnig persbectif ehangach ar feddylfryd sy'n dod i'r amlwg. Bydd y grŵp yn cynnwys ystod eang o leisiau sy'n cynrychioli gwahanol ddiddordebau o bob rhan o'r sector addysg a thu hwnt. Bydd y grŵp yn helpu i sicrhau bod yr arlwy cyffredinol o gymwysterau yn bodloni ein hegwyddorion arweiniol drwy gynghori ar yr ystyriaethau cyffredinol canlynol:

i. Hydrinedd, gallu a chydlyniad
ii. cysondeb â Fframwaith Cwricwlwm i Gymru a'i weithredu
iii. ymarfer addysgu a phrofiad dysgwyr
iv. hygyrchedd a chynhwysiant
v. iechyd meddwl, lles a diddordeb dysgwyr
vi. dilyniant a goblygiadau ôl-16
vii. rheoli newid (gan gynnwys hyfforddiant athrawon, dysgu proffesiynol, adnoddau athrawon a dysgwyr)
viii. dealltwriaeth y cyhoedd a chyfathrebu.